


Edrych ar sut rydyn ni'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yng Nghastell-nedd Port Talbot

Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant



 **Estyn**


HMICFRS
Her Majesty's Inspectorate of Constabulary
and Fire & Rescue Services

 Her Majesty's
Inspectorate of
Probation


Arolygiaeth
Gofal Iechyd
Cymru
Healthcare
Inspectorate
Wales

 Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Medi 2021

Helo

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gwneud y pethau iawn yn y ffyrdd iawn. Gallwn weithredu os nad ydyn nhw

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom wirio sut mae gwasanaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cadw plant yn ddiogel.

Fe wnaethom wirio'r canlynol:

- sut mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- sut maen nhw'n delio â Chamfanteisio ar Blant
- sut maen nhw'n asesu anghenion plant
- sut mae cymorth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu
- sut mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio
- sut maen nhw'n delio â cham-drin ac esgeulustod
- sut maen nhw'n gwella gwasanaethau.



Gall Camfanteisio ar Blant fod yn **Gamfanteisio Troseddol** lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth anghyfreithlon neu **Gamfanteisio Rhywiol** sy'n cynnwys cam-drin rhywiol.

Pwy wnaeth gymryd rhan?


Cawsom gymorth gan:

- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
- Estyn.

Fe wnaethom arolygu:

- yr Heddlu
- Gwasanaethau Awdurdodau Lleol – Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, ysgolion a mwy
- Gwasanaethau Iechyd
- Gwasanaethau prawf
- grwpiau a sefydliadau eraill.

Beth wnaethon ni



Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy ch am yr hyn a rydyn ni wedi'i ganfod.

Rhai o'n prif ganfyddiadau

Mae staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn fedrus ac yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant.

🕒 Cyfarfodydd Diogelu a Chyfarfodydd Camfanteisio Amlasiantaethol

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i wasanaethau a'r Heddlu rannu gwybodaeth ac adnoddau. Maen nhw'n eu helpu i weithio gyda'i gilydd i gefnogi plant a phobl ifanc, a'u cadw'n ddiogel.

🕒 Panel Risg Cyd-destunol

Grŵp o weithwyr proffesiynol yw hwn sy'n edrych ar bob agwedd ar fywyd person ifanc, y risgiau dan sylw a'r hyn sydd angen digwydd i'w cadw'n ddiogel rhag bod yn destun camfanteisio. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, gwasanaethau a'r heddlu.

🕒 Deall camfanteisio

Mae gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau yn deall y risg o Gamfanteisio ar Blant. Mae staff iechyd yn defnyddio'r Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn dda.

🕒 Un Man Cyswllt (SPOC)

Mae un man cyswllt clir ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau yn defnyddio hyn a gwneir atgyfeiriadau'n gyflym. Mae'r tîm SPOC yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill ac yn gallu gwneud penderfyniadau.

🕒 Delio â'r pandemig

Parhaodd y gwasanaethau i amddiffyn plant a phobl ifanc drwy'r pandemig. Roedd y cymorth i staff a gweithwyr proffesiynol yn dda. Roedd buddsoddiad mewn hyfforddiant a rheoli risg, gan gynnwys hyfforddiant i staff yr ysgol.

🕒 Plant, pobl ifanc a theuluoedd

Mae barn plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael ei glywed, ac maen nhw'n ymwneud â phenderfyniadau. Er enghraifft, yn y **Prosiect Sgwrs Lleisiau Ieuenctid**, dywedodd 800 o bobl ifanc wrth yr heddlu beth yr oeddent yn ei deimlo am ddiogelwch cymunedol. Mae hyn wedi helpu'r heddlu i gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwella gwasanaethau.

Mae llawer o weithwyr proffesiynol a staff yn cydweithio i amddiffyn plant drwy:

- rannu gwybodaeth
- camu i mewn yn gynnar i gefnogi plant a theuluoedd
- atal plant rhag ymwneud â phobl anniogel neu droseddu
- rhoi cymorth
- gadael i wasanaethau a'r Heddlu wybod os yw plentyn mewn perygl
- weithio gydag ysgolion
- meithrin perthynas gref yn y gymuned
- cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio ac mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



Rhai o'r pwyntiau da a wnaethon ni eu canfod

✓ Yr Heddlu

Mae Heddlu De Cymru (SWP) wedi ymrwymo i gadw plant yn ddiogel ac atal Camfanteisio ar Blant. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda gwasanaethau awdurdodau lleol, sefydliadau a phartneriaid eraill. Maen nhw:

- yn dod o hyd i ffyrdd newydd o adnabod plant sydd mewn perygl a chamu i mewn yn gynnar i'w diogelu
- yn gwirio bod eu polisiau a'u cynlluniau yn gyfredol ac yn cynnwys unrhyw fygythiadau neu risgiau newydd
- yn defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth i atal plant rhag cael eu hecsbloetio
- yn mynd ar batrôl mewn ardaloedd lle maen nhw'n gwybod eu bod yn ardaloedd risg
- hyfforddi staff fel eu bod yn deall y materion mae plant sy'n agored i niwed yn eu hwynebu
- hyfforddi staff fel eu bod yn deall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) fel cam-drin domestig a defnyddio cyffuriau
- hyfforddi staff yn eu canolfannau galwadau fel eu bod yn gwybod sut i gefnogi plant sy'n agored i niwed
- bod â thîm person coll sydd wedi'i hyfforddi
- cael system newydd sy'n amlygu'r risg i blant 14-17 mlwydd oed sydd ar goll o'r enw NAIRA
- defnyddio Hysbysiadau Rhybuddio am Gipio Plant (CAWNs) i atal rhai oedolion rhag bod yn agos at blentyn
- rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau
- cael cyfweiliadau dychwelyd adref ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd ar goll a rhannu'r wybodaeth honno gyda gwasanaethau eraill
- bod â Thîm Troseddau a Llinellau Sirol Cyfundrefnol sy'n canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel rhag gangiau troseddol.

Ymgyrch Cwmpasu

Mae hon yn system rybuddio ddyddiol sy'n rhoi gwybod i ysgolion os yw person ifanc wedi gweld neu wedi bod yn ymwneud â sefyllfa cam-drin domestig. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol gynllunio cymorth ar ddechrau'r dydd.

Mae sicrhau bod yr holl wasanaethau'n gwybod pan fo plentyn mewn risg yn bwysig.



Rydym am i bob plentyn ledled Nghastell-nedd Port Talbot gael bywydau hapus ac iach, heb esgeulustod na cham-drin.



✓ **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)**

Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau da ar waith i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Mae:

- ganddyn nhw dimau arweinyddiaeth diogelu sy'n cefnogi staff
- ganddyn nhw Tîm Diogelu Corfforaethol
- ganddyn nhw systemau i staff wirio a yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl
- ganddyn nhw dudalen ddiogelu ar-lein i staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd
- nhw'n rhoi Hyfforddiant Diogelu Oedolion a Phlant i staff
- ganddyn nhw systemau fel y gall staff roi gwybod am unrhyw faterion diogelu
- ganddyn nhw systemau fel y gall Adrannau Brys ac Unedau Mân Anafiadau roi gwybod am bryderon diogelu
- nhw'n rhoi hyfforddiant staff ar faterion fel Camfanteisio ar Blant
- nhw'n sicrhau bod staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r Holiadur Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- nhw'n sicrhau bod staff yn gwirio'r Gofrestr Amddiffyn Plant (CPR)
- nhw'n sicrhau bod meddygon teulu a staff gofal iechyd yn gwybod eu cyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel
- nhw'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg
- nhw'n sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael cymorth am ddim gan yr Uned Iechyd Rhywiol Integredig
- nhw'n gwella eu gwaith gan ddefnyddio offer hunanasesu
- nhw'n gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau.
- nhw'n rhannu gwybodaeth â gwasanaethau eraill.

✓ **Ymwelwyr Iechyd**

Mae ymwelwyr iechyd yn yr ardal yn adnabod y plant yn dda iawn. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth gydag ysgolion cynradd, fel y gall yr ysgol gefnogi plant sy'n agored i niwed cyn gynted â phosibl.

✓ Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i les a diogelwch plant a phobl ifanc. Maen nhw'n gweithio'n dda gydag awdurdodau lleol eraill ar draws y rhanbarth. Mae:

- nhw'n camu i mewn yn gynnar i helpu ac amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl
- nhw'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal
- ganddyn nhw systemau ar waith fel y gall gwasanaethau a'r Heddlu gydweithio
- nhw'n cefnogi staff i sylwi ar gamfanteisio a delio ag ef
- ganddyn nhw berthynas gref â chymunedau a sefydliadau
- nhw'n gwrando ar farn plant a'u teuluoedd
- nhw'n cefnogi plant a phobl ifanc gartref ac yn y gymuned
- nhw'n gwneud gwybodaeth a chynngor yn hawdd dod o hyd iddynt drwy Un Man Cyswllt (SPOC)
- nhw'n hyfforddi staff ar faterion fel camfanteisio'n rhywiol ar blant
- nhw'n gweithio'n dda gydag ysgolion a cholegau
- nhw'n cynnig gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc
- ganddyn nhw swyddog arweiniol Diogelu Addysg.

✓ Gwasanaethau Plant

Mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio'n galed i gadw plant yn ddiogel. Mae eu rheolwyr a'u harweinwyr yn cefnogi staff yn dda ac yn parhau i wella sut mae gwasanaethau'n gweithio. Mae:

- nhw'n camu i mewn yn gynnar a chefnogi plant a theuluoedd
- nhw'n denu ymddiriedaeth ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â theuluoedd yn yr ardal
- nhw wedi hyfforddi staff sy'n deall amddiffyn plant
- nhw'n gwybod sut i nodi arwyddion camfanteisio a'i risgiau
- ganddyn nhw dimau gwaith cymdeithasol sefydlog sy'n gwybod eu cyfrifoldebau
- nhw'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn dda
- nhw'n gweithio gyda gwasanaethau a sefydliadau eraill
- nhw'n gwrando ar farn plant a phobl Ifanc
- nhw'n parhau i wella'r ffordd maen nhw'n gweithio.



Gall bod yn absennol o'r ysgol roi plant mewn perygl.



✓ Ysgolion a gwasanaethau addysg

Mae ysgolion a gwasanaethau addysg yn deall pa mor bwysig yw adnabod plant sydd mewn perygl. Mae gan ysgolion yn yr ardal adroddiadau arolygu da iawn gan Estyn ar gyfer eu cymorth a'u harweiniad Gofal, gan gynnwys diogelu. Mae:

- ganddyn nhw gynlluniau a pholisiau cyfredol ar waith i amddiffyn plant
- nhw'n hyfforddi athrawon a staff eraill ar risgiau fel Camfanteisio ar Blant
- nhw'n gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol, gwasanaethau eraill a'r heddlu
- nhw'n rhan o'r Cyfarfodydd Diogelu a Chamfanteisio Amlasiantaethol
- nhw'n cael cymorth a chynghor gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
- ganddyn nhw wasanaethau cwnsela mewn ysgolion a Chynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol
- ganddyn nhw raglenni mentora a rhaglenni bugeiliol cryf ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl
- nhw'n rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir pan fydd plentyn sydd mewn perygl yn symud rhwng ysgolion
- ganddyn nhw systemau, felly mae athrawon a staff yn cyfeirio plant at wasanaethau eraill
- nhw'n gweithio'n dda gyda Swyddogion Lles Addysg fel bod llai o blant yn mynd ar goll o'r ysgol
- ganddyn nhw o leiaf un athro ym mhob ysgol sy'n gyfrifol am ddiogelu
- nhw'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Gymraeg
- ganddyn nhw llywodraethwr penodol ar gyfer diogelu
- nhw'n gwrando ar farn plant a phobl ifanc
- ganddyn nhw reolaeth ac arweinyddiaeth dda.

✓ Y Gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gydag ysgolion ac yn helpu dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol. Maen nhw wedi'u hyfforddi ac yn gwybod sut i adnabod dysgwyr sy'n agored i niwed a'u cadw'n ddiogel rhag cael eu hecsbloetio.

✓ **Y Gwasanaeth Ieuentid**

Mae'r gwasanaeth hwn yn camu i'r fei i helpu pobl ifanc sydd mewn perygl. Nhw oedd y Gwasanaeth Ieuentid cyntaf yng Nghymru i gyflawni Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru. Maen nhw'n cefnogi ysgolion ac yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac sy'n derbyn gofal.

✓ **Y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid (YOS)**

Mae'r gwasanaeth hwn wedi gwella ers ei arolygiad diwethaf. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill a'r Heddlu i atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddu. Maen nhw'n deall eu hardal, y bygythiadau a'r risgiau mae pobl ifanc yn eu hwynebu ac maen nhw wedi ymrwymo i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi gwella'r ffordd maen nhw'n gweithio ac mae bellach yn cysylltu'n well â staff.

✓ **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)**

Mae'r tîm hwn yn camu i mewn yn gynnar i helpu teuluoedd. Maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau eraill i helpu teuluoedd i sylwi ar risgiau, adeiladu eu cryfderau ac atal pethau rhag gwaethygu.

✓ **Panel Ymyrraeth Gynnar**

Mae'r Panel hwn yn cynnwys pobl o Dîm o Amgylch y Teulu (TAF), Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) a gwasanaethau eraill. Fel tîm, maen nhw'n camu i mewn yn gynnar ac yn cefnogi teuluoedd.

✓ **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

Mae staff CAMHS yn helpu i atal pobl ifanc rhag peryglu eu hunain a chefnogi eu lles.


✓ **Y Tîm Llesiant**

Mae'r tîm hwn yn cefnogi ysgolion, staff, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gadw'n ddiogel ac yn iach ym mhob rhan o'u bywydau.

✓ **Sefydliadau eraill**

Mae Ymddiriedolaeth St Giles, Cynnydd, a Barnardo's yn rhedeg prosiectau i atal plant rhag cael eu hecsbloetio. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda gwasanaethau a'r Heddlu.

**Mae camu i mewn
yn gynnar yn gwneud
gwahaniaeth mawr.**



Ei wneud yn well ar gyfer y dyfodol

Rydym yn nodi gwahanol ffyrdd y gall gwasanaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot wella er mwyn cadw plant yn ddiogel.

Mae rhai o'r ffyrdd o wella yn cynnwys:

- sicrhau bod Cyfarfodydd Diogelu a Chamfanteisio Amlasiantaethol yn digwydd yn rheolaidd ac yn cynnwys pawb sydd eu hangen
- cadw cofnodion gwell o gyfarfodydd fel bod tystiolaeth am benderfyniadau a pha gymorth sydd ar waith
- hyfforddi staff ar sut y gall sefyllfa bywyd plentyn eu rhoi mewn mwy o berygl
- datblygu model asesu risg newydd i'r holl wasanaethau eu defnyddio
- gwirio ansawdd asesiadau ar draws yr holl wasanaethau
- defnyddio'r rhwydweithiau cymorth sydd gan blant a theuluoedd eisoes fel rhan o gynlluniau diogelwch
- codi ymwybyddiaeth am eiriolaeth annibynnol a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
- adolygu cynlluniau diogelwch yn amlach
- sicrhau bod asesiadau'n cael eu rhannu â theuluoedd
- rhannu gwybodaeth yn well
- sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyfredol
- sicrhau bod arweinyddiaeth yn cefnogi staff yn well.

Mae nodi peryglon a chadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn waith i bawb.



► Y camau nesaf

Rydym wedi ysgrifennu llythyr at yr holl wasanaethau dan sylw. Mae'n esbonio'r hyn rydyn ni wedi'i ganfod a'r hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud.

Byddant yn rhoi gwybod i ni sut maen nhw'n bwriadu gwella eu gwaith.

Byddwn yn arolygu gwasanaethau eto yn y dyfodol.

Diolch am ddarllen hwn.

Gallwch ddarllen y llythyr llawn yma:

arolygiaethgofal.cymru/adolygiad-ar-y-cyd-gan-arolygiaethau-o-drefniadau-amddiffyn-plant-jicpa-castell-nedd-port-talbot

